**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-05-860 - P-05-861
Ein cyf/Our ref: KW/05436/19

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
Senedd.Deisebau@cynulliad.cymru

4 Mawrth 2019

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 21 Chwefror, yn dilyn gohebiaeth flaenorol ynghylch ystyriaethau'r Pwyllgor Deisebau o ddeisebau ynghylch gwneud gwersi sgiliau bywyd yn orfodol ar y cwricwlwm (P-05-860); a gwneud addysg wleidyddol yn elfen orfodol o'r cwricwlwm newydd (P-05-861).

Rwyf am ymateb i bob cwestiwn yr ydych wedi'u codi yn eu tro:

- ***P'un a yw'n bosibl dechrau gwella dulliau addysgu sgiliau bywyd i ddisgyblion mewn ysgolion, cyn i'r cwricwlwm newydd gael ei weithredu'n llawn erbyn 2022***

Bydd y cwricwlwm newydd drafft ar gael i ysgolion o fis Ebrill er mwyn iddynt gael rhoi adborth. Bydd fersiwn derfynol ar gael ym mis Ionawr 2020 a chaiff ei defnyddio mewn ysgolion ledled Cymru erbyn 2022. Wrth gwrs, gall ysgolion wneud defnydd o'r cwricwlwm newydd pan gaiff ei ryddhau am y tro cyntaf, a bydd ganddynt yr hyblygrwydd i ddatblygu dulliau addysgu a dysgu sgiliau bywyd, ac yn wir holl feysydd y cwricwlwm, cyn i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno yn 2022.

- ***Sut, yng nghyd-destun sicrhau hyblygrwydd i weithwyr proffesiynol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod pob disgybl yn cael eu gwreiddio'n ddigonol ac yn gyson mewn sgiliau bywyd yn ystod eu haddysg?***

Bydd pob Maes Dysgu a Phrofiad yn y cwricwlwm newydd yn seiliedig ar nifer o ddatganiadau 'Yr Hyn sy'n Bwysig', a dyna fydd prif fecanwaith cynllunio a chymorth y cwricwlwm. Bydd datganiadau 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn cwmpasu pob rhan o'r

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Meysydd Dysgu a Phrofiad ac yn tynnu ar wybodaeth, sgiliau a phrofiadau disgyblaethol. Cânt eu defnyddio fel man cychwyn, ynghyd â'r Pedwar Diben, i ddatblygu cwricwlwm ysgolion a byddant yn help i osgoi amrywio yn y ffordd y caiff cwricwlwm ysgolion eu cynllunio, gan ganiatáu hyblygrwydd lleol ar yr un pryd. Bydd Meysydd Dysgu a Phrofiad hefyd yn cynnwys cymorth cynllunio, gan gyfeirio at brofiadau, gwybodaeth a sgiliau penodol yn ogystal â chysylltiadau â rhannau eraill o'r cwricwlwm. Bydd y cwricwlwm newydd, felly, yn darparu fframwaith cyffredin i ymarferwyr gynllunio cwricwla eu hysgolion, ac yn rhoi canllawiau clir ar sut y dylai dysgwyr symud yn eu blaenau i sicrhau'r Deilliannau Cyflawniad sy'n gysylltiedig â datganiadau 'Yr Hyn sy'n Bwysig'. Fodd bynnag, ni all y cwricwlwm newydd gynnig rhestr gynhwysfawr o fanylion y cynnwys, a fyddai'n mynd yn gymhleth ac yn ormodol yn gyflym iawn. Rhaid iddo ganiatáu i weithwyr proffesiynol fod yn hyblyg i ddewis cynnwys penodol sy'n bodloni anghenion eu dysgwyr yn eu cyd-destun penodol nhw.

Dyma rai enghreifftiau penodol:

Mae datganiadau drafft 'Yr Hyn sy'n Bwysig' ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn nodi

*Mae deall beth sy'n dylanwadu ar y broses gwneud penderfyniadau (gan gynnwys gwybodaeth, dealltwriaeth, agweddau, gwerthoedd a chredoau) yn helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau cadarnhaol, ystyriol a gwybodus. Mae angen i ddysgwyr hefyd ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i wneud penderfyniadau penodol yn bosibl. Mae dysgwyr yn dysgu hefyd sut mae grwpiau yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd, gan ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r rôl a phwysigrwydd penderfyniadau a wneir ar y cyd.* Mae hyn yn cynnwys dysgu am benderfyniadau ariannol a phenderfyniadau am yrfaoedd ar draws y camau cynnydd.

Mae datganiadau drafft 'Yr Hyn sy'n Bwysig' ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn nodi:

*Dylai dysgwyr ddatblygu safbwyntiau gwybodus am heriau gwleidyddol sy'n wynebu'r ddynoliaeth. Drwy fynd i'r afael â chwestiynau sylfaenol ym maes y Dyniaethau, mae dysgwyr yn cael yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lunio'u safbwyntiau eu hunain a chyfiawnhau'r safbwyntiau hynny. Bydd dysgwyr yn datblygu empathi, cydnerthedd a pharch wrth ddod ar draws gwerthoedd, credoau a safbwyntiau gwahanol.*

- ***Ystyried gweithredu'n gyflymach i sicrhau bod gwelliannau i'r addysg wleidyddol a ddarperir o fewn ysgolion yn cael eu rhoi ar waith cyn gweithredu'r bwriad i ymestyn hawliau pleidleisio pobl ifanc 16 ac 17 oed ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2021.***

Mae ysgolion eisoes yn cael eu hannog i ddarparu addysg eang, gan gynnwys ymwybyddiaeth wleidyddol, ac mae cyfleoedd i ddysgwyr ymchwilio i wleidyddiaeth o fewn y cwricwlwm presennol drwy Fagloriaeth Cymru ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Mae'r thema 'Dinasyddiaeth Weithgar' o fewn Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn caniatáu i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth o wleidyddiaeth a'u hawliau mewn cymdeithas ddemocrataidd, sy'n adlewyrchu Confensiwn y

Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Maent hefyd yn meithrin gwybodaeth ymarferol o'u hawliau a'r cyswllt rhwng penderfyniadau gwleidyddol a'u bywydau eu hunain.

Rydym yn cydnabod hefyd bwysigrwydd cefnogi dysgwyr i ddatblygu eu diddordeb mewn materion gwleidyddol ac rydym, er enghraifft, wedi cyhoeddi adnoddau ar Hwb yn ddiweddar i annog dysgwyr i ymchwilio i gwestiwn gostwng yr oedran pleidleisio i 16 ar gyfer etholiadau'r Cynulliad; mae'r rhain ar gael yn:

http://hwb.gov.wales/news/article/48d817a6-42c6-4ce9-9bfd-67b357b2dffa

Rwy'n gobeithio bod hyn yn egluro'r sefyllfa mewn perthynas â phob un o'ch cwestiynau.

Yn gywir

**Kirsty Williams AC**
Y Gweinidog Addysg